Library of the
PACIFIC UNITARIAN SCHOOL
FOR THE MINISTRY
Berkeley, California

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
UNDODIAETH . . . ?
Y BARBARIAD BACH.
PWYLLGOR HYDREF 1935.
PRIODAS. URDD Y BENYWOD.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv.

Tach. 1935

Rhif 11

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXV. TACHWEDD, 1935. RHIF 11

DOS I'TH YSTAFELL—."

A GWAITH cyfiawnder fydd heddwch ; ac effaith cyfiawnder llonyddwch a hyder yn dragywydd."—*Esaia xxxii, 17.*

* * *

NID yw ein bywyd cymdeithasol ond un ymdrech hir ac araf i sicrhau buddugoliaeth Cyfiawnder dros orthrech.—GALSWORTHY.

* * *

MAE'R gwleidyddwr yn meddwl am yr etholiad nesaf, ond y gwladweinydd am y genhedlaeth nesaf.—JAMES FREEMAN CLARKE.

* * *

MAE dyn mor hanfodol foesol, fel pe y gwadai bob moesoldeb, deuai'r gwadu yn sail moesoldeb newydd.—MAETERLINCK.

* * *

GWNA dy hun yn ddyn gonest, yna gelli fod yn sicr fod un dyhiryn yn llai yn y byd.—CARLYLE.

* * *

YR hyn a gredir yn rhwydd yw'r hyn a obeithir yn fawr.—TERENCE.

* * *

I'R genedl sydd ganddi ysgolion mae'r dyfodol.—BISMARCK.

* * *

WEDI iddi ennill ei buddugoliaethau i gyd, bydd raid i Wyddor fynd yn ôl, a phan ddaw yr amser i gynorthwyo i adeiladu credo i ddyn fyw wrthi.—MORLEY.

* * *

MAE cyfrinach dedwyddwch nid mewn gwneyd yr hyn a hoffwn, ond mewn hoffi yr hyn sydd gennym i wneyd.—JAMES M. BARRIE.

* * *

BAI ein diwinyddiaeth ydyw ei bod yn hawlio fod y Beibl wedi ei gau, ac fod oes Ysbrydoliaeth yn y gorffennol.—EMERSON.

* * *

ARGLWYDD ein Duw, gwrola ni i wynebu popeth er mwyn y gwirionedd, i ddweyd yr hyn a gredwn yn wyneb pob dirmyg, i wrthwynebu drwg hyd farw. Dyro i ni galonnau dewr fel nad ofnwn yr hyn all dynion wneyd i ni. Dyro i ni ffydd y bydd i'r gwirionedd orchfygu yn nerth ei adnoddau hanfodol ei hun. Dyro i ni y gwroldeb enaid a'n galluoga ni i fod yn unig gyda Thi, er mwyn dy enw.—Amen.

Undodiaeth . . . ?

[*Papur a ddarllenwyd yn Aberdâr, Hydref 31, 1935*].

"UNDODWR," medd rhywun "yw'r dyn nad yw wedi dwedyd ei air olaf", a gorfodir minnau i ychwanegu fod "atal dweyd arno ers llawer dydd". Fy amcan i heddiw yw ceisio dweyd rhywbeth *profoclyd*, dweyd y gwir plaen heb falio a yw yn clwyfo ai peidio. Y mae ofn heddiw yn gafael ynom. Yr ym yn byw mewn cyfnod o ofn, heb nemor o asgwrn cefn gennym na menter eofn—heb frwdfrydedd *catching* nac argyhoeddiad clir y teidiau slawer dydd. Yr oedd gormod o ofn ar yr awdurdodau yma i gyhoeddi fy nhestun heddiw—UNDODIAETH a chwestiwn marc ar ei ôl, i ddangos yn blaen na wyddwn i mo'i lwybr. Y mae fel scenario newydd H. G. Wells—THINGS TO COME—ac yn groes i'r llun ceir "WHITHER MANKIND?" Yr wyf innau'n gofyn "WHITHER UNITARIANISM?" . . . Yn llyfrgell Prâg uwchben emyn coffa John Hus y mae tri medallion. Yn y cyntaf gwelir John Wicliff yn taro gwreichion o garreg. Yn yr ail ceir John Hus yn tano'r glo neu gynneu'r tân. Yn y trydydd gwelir Martin Luther yn dwyn golau clir y DORS GYNN—The lighted torch.

Yr ym wedi aros. Y mae'r *Dors* fel llin yn mygu. Y mae y marwydos yn marw losgi. Y mae'r garreg yn oer heb wreichionen yn tasgu ohoni . . . Y mae tair canrif wedi mynd er pan rowd Undodiaeth fel enw ar eglwys. Yr adeg honno dyma nodau gwir grefydd,—"Credu credo . . . aelodaeth eglwysig a chyfranogi o sacramentau'r eglwys . . ." Ni chredai rhyw eneidiau mawr mo hynyna. Ni ddywedent na fedrai fod, ond mai allanolion crefydd—y wisg—y plisgyn oedd y pethau hyn ac nid gwir grefydd, a cheir sôn yn hytrach am Ryddid Ysbrydol, rheswm golau—cydymdeimlad llydan—cymeriad unplyg a gwasanaeth dihunan fel cnewllyn efengyl Iesu—fel y pethau nad ysgydwir. Yng ngeiriau Deon Inge—*The Centre of Gravity of religion has shifted from authority to experience* . . .

Credir fod y diwedd yn agos, a'r Undodwr wedi cwpla'i waith, ac nad oes alw amdano mwy. Y mae y frwydr wedi'i hennill. Y mae pob enwad wedi'i drwytho ag ysbryd rhyddfrydig. Ni phwysleisir heddiw gredo fel cynt, a chredir ein bod wedi estyn y dors i foderniaid pob enwad. Astudir y Beibl fel pob llyfr arall pan y'i hastudir o gwbl. Y mae rheswm golau dyn wedi gafael yn y werin, a chredwn fod pob peth yn dda. Gorffwyswn ar ein rhwyfau. Y mae ieuenctid ein henwad mor rhyddfrydig nes peidio credu dim, ac y mae'r rhai mewn oed wedi caledu. Ofnaf fod Martineau wedi dweyd gormod o wir —"*The Great Mass of*

our congregations are as much wedded to their type of orthodoxy as the professors of the Westminster Confession of Faith to their Ampler Formulary " . . . Yr ym wedi colli yr arweinyddiaeth. Nid oes gennym na gweledigaeth na nerth. Gwelaf ni fel dyrnaid o bobl heb fenter, heb ffresni meddwl, heb eneidiau mawr. Yr ym fel cerbyd wedi'i *shunto* i'r *siding*. Yr ym yn byw ar gapital moesol yr oes o'r blaen. Gwaeddwn yr un shiboleth, a phroffeswn yr un daliadau, ond nid oes ynddynt na phrofiad nac ynni na gweledigaeth.

Mynych yr edrychaf yn ôl a gwelaf yr hen deidiau yn dod ataf. Yr wyf yn wangalon ac mewn anobaith yn fynych, a galwaf i gôf Jenkin Jones a Dafydd Llwyd, Dafydd Siencyn Rees, Tomos Glyn Cothi a Gwilym Marles, a gwelaf rywbeth yn Undodiaeth cyn iddo godi eneidiau mawr, ie, arwyr y mannau cudd ; a diolchaf i Dduw nad yw ef yn " diffodd y llin sydd yn mygu nac yn dryllio'r gorsen ysig ". Peidiwch a chredu fod y gorffennol yn ddigon. Ys dwedai Martineau, " I cannot rest contentedly upon the past. I cannot take a step towards the future without its support . . . "

O droi yn ôl gwelwn nad oedd Undodiaeth ond,—" *Yr elfen resymol, foesol a dynol yn y byd ysbrydol yn codi mewn protest yn erbyn gormes y goruwchnaturiol a'r duedd Bantheistaidd mewn uchel Galfiniaeth* . . . "

Protest oedd Undodiaeth, a thra bo dyn yn ddyn bydd raid protestio—protestio yn erbyn rhyfel—protestio yn erbyn câs a cham a dial—protestio yn erbyn *distressed areas* yn y wlad gyfoethocaf dan haul. Ys dywedai Blake yn " Holy Thursday " :

> " And their sun does never shine,
> And their fields are bleak and bare ;
> And their ways are filled with thorns,
> It is eternal winter there."

Protestio yn erbyn proffesu crefydd ac nid ei byw—protestio yn erbyn goleuo tipyn o feddwl dyn heb agoryd a lledaenu'i galon a phuro'i enaid.

Tra bo dyn yn y byd, ni fedr fod yn fodlon arno, rhaid protestio byth a beunydd, protestio bod dyn yn gosod gallu, a chenedl, a dynolryw a dictator a phurdeb cenedl a gwanc am ymerodraeth yn uwch na'r Bregeth ar y Mynydd ac Efengyl syml Mab y Saer.

Protestio yn erbyn gadael i'r peiriant a phleser a gallu i ddinistrio delw Duw yn enaid dyn.

Nid anerchiad sydd gennyf, ond mi fy hunan yn edrych i'r crystal y prynhawn yma a gweld Pwerau'r Nos yn ymgodymu am enaid dyn, a minnau'n ceisio darllain y dyfodol a gweld ymhle y medr Undodwr roi help llaw i ddyn dorri cyffion ei enaid gan ei wneud yn *Wr Rhydd* i Dduw.

Y mae'n ffashwn heddiw i ddyddio popeth o adeg y Rhyfel Mawr. Dyna oedd y Rhyfel—cyffin dau gyfnod—No Man's Land—lle y gwelid pwerau a dybid a oedd wedi'u dofi yn dod yn ôl i enaid dyn a saith gythraul gwaeth na hwy eu hunain yn eu dilyn. Nid oedd y Rhyfel ond cyfleu dyn i ddangos a oedd tan wyneb ei enaid. Medrem adeg y rhyfel edrych i mewn i galon dynoliaeth a gweld y pwerau a oedd yn cysgu yno ac yn aros eu cyfleu. Y Rhyfel oedd dechreu a alwn ni yn *Collective Existence.* Bu dyn byw fel aelod o lwyth a chenedl o'r blaen, ac nid yw hyn ond taflu'n ôl—*reversion to type.* Dyna oedd slawer dydd. Nid dyn oedd yn bwysig ond teulu a llwyth a chenedl a gwlad a byddin. Ni cheid addoli Duw ond trwy offeiriad y llwyth rhag ennill ei ffafr i'r unigolyn. A dyna ydyw yn yr Almaen a Rwsia a'r Eidal a mannau eraill heddiw—rhaid i bob un gredu'r un peth—rhaid i bob un ddal yr un opiniynnau—rhaid suddo pob opiniwn personol yn y dyrfa neu'r *collective.* Ys dywedai rhywun : Dyma *The Depersonalisation of man*—symud oddiwrth ddyn ei bersonoliaeth gan ei wneud yn un o'r dyrfa—yn un o'r crowd. Fe fu yna adeg pan sonid yn ein gwlad ni am UNION-GREDEDD—*orthodoxy.* Nid yw ond gorfodaeth ar genedl i fod yn Uniongred, nid ar ryw faterion bach a dibwys ond ymhob dim—gofyn i ddyn suddo ei bersonoliaeth yn y ddynoliaeth. Dwedir nad yw bywyd tragwyddol ond dyn yn ymgolli ei hun yn Nuw fel yr afon yn ymgolli yn y môr. Dwn i ddim. Nid wyf yn fodlon ymgolli yn Nuw ; a sicr nid wyf yn fodlon ymgolli yn y crowd. Nid wyf yn fodlon i'm personoliaeth—i'm hunigoliaeth fynd ar ddifancoll.

Ofnaf nad ydym yn gweld y trend. Nid wyf wleidydd na phroffwyd. Gair mawr y dydd yn adeg etholiad yw cenedlaetholi —*nationalize*—ac yr ych chwi a minnau yn gofyn pam na chenedlaetholid y tir, y glofeydd a'r rheilffyrdd a'r banciau, a pham ? Ond, onid oes yna fudiad yng ngwledydd cred i genedlaetholi pob dim—cenedlaetholi bywyd y teulu a'r meddwl. Y mae dyn yn colli'i *werth*—Nid enaid byw mohono yn gyfrifol i Dduw ond yn hytrach un o'r llu, a chenedl a gwlad wedi'u gosod yn lle Duw. Dyna welir—*Dehumanization*—popeth yn dylanwadu er lladd personoliaeth a dynoliaeth dyn.

Y mae'r llwybr yn glir. Gwneir dyn yn beiriant a chynt neu hwyrach fe ddarnia'r peiriant ddelw Duw y sydd ynom.

Y mae yn ffashwn heddiw i sôn am Karl Barth, y diwinydd o'r Almaen, a chofier yr un trend sydd ym myd crefydd ac ym myd cymdeithas. Hyd y gwelaf i, y mae Barth yn ddiddynoli Cristionogaeth. Ceidw, mae'n wir, Ffydd yn Nuw, ond yn Uwchfodaeth Duw. Y mae byd Barth a'i ddynoliaeth yn ddidduw—godless, ond erys Duw. Gair Duw yw'r unig gyswllt rhwng Duw a'i fyd.

Pe gofynnid flynyddoedd yn ol, credaf y dwedid fod Ewrop yn Gristionogol, ond heddiw fe welwn baganeiddio Cristionogaeth, a rhoir y swastika yn lle'r Groes. Y mae'r genedl—the race—wedi cymryd lle Duw, a rhyw genedlaetholdeb cul—false nationalism—tebig a oedd yn Israel slawer dydd wedi dangos ei ben, a rhagor na dangos awydd am genedl o waed pur yn awgrymu na fedrir ond geni Almaenwr heddiw, ac nid yw hyn ddim ond ffataliaeth.

Hyd y gwelaf i, y mae ysbryd cenedlaethol felly—nationalism, yn gwbl groes i frawdoliaeth gyffredinol . . . y mae'n gwadu gwerth uchaf personoliaeth dyn.

Slawer dydd sonid am Ryddid Meddwl a chred llawer Undodwr fod rhyddid meddwl yn eiddo i ddynoliaeth am byth mwy. Ba hurtrwydd plentynaidd ! Medr Rhyddid Meddwl ddilyn un o ddau lwybr. Medr droi at Freethinking ac amheuaeth—scepticism—neu o golli yr hen awdurdod a'i cadwai wrth y llyw ofyn am Unbennaeth—Dictatorship—nid yn unig ym myd gwleidyddiaeth ac economeg ond hefyd ym myd y meddwl ac athroniaeth.

Sonir llawer yn ein dyddiau ni am Fwsolini a Hitler a Stalin ac eraill. Y mae y *Dictator* yn enw i'w barchu a'i ofni heddiw, ond peidiwch a chredu mai dyma'r tro cyntaf i sefydlu Dictator. Beth oedd y Pab yn y canol oesoedd pan orfodid pob meddwl i ufuddhau iddo? Beth oedd yr Eglwys ar hyd y canrifoedd? Beth oedd Calfin yn Genefa? Tybed nad oedd ef yn ddictator yn mynnu y gwaed gwirion. Beth fu y Beibl, a Chredo a Chyffes ac Enwad ond rhyw ddictators byth a beunydd yn plygu meddwl dyn a chaethiwo ei enaid er fod Duw wedi bwriadu iddo gerdded yn rhydd.

Dweyd yr wyf, nad rhywbeth newydd mo Dictator, ond dyn wedi *ail moilyd*, dyn yn cael y dwymyn eilwaith, a'i chael yn ddyn pan ddylasai fod wedi ei chael yn blentyn.

Dyna a welaf i heddiw. Nid oes amser mawr er pan losgid llyfrgell Benedetto Croce 'Athronydd Byw Mwyaf yr Eidal'. Nid oedd nemor o wahaniaeth rhwng llosgi ei lyfrgell ef a llosgi llyfrgell Priestley ym Mirmingham ond fod cant a hanner o flynyddoedd wedi gwneud gwahaniaeth. Gwyddoch am Hitler yn ceisio gorfodi yr offeiriaid lawn mor gyndyn a Harri'r Wythfed yma, a deallwn felly pam fod blaenorwyr ym myd y meddwl yn ffoi gan chwilio am ddinas noddfa yma.

Ni chondemniaf Stalin a'r Sofied yn gyfangwbl er eu bod yn erlid yr eglwys. Yr oedd yr eglwys wedi mynd yn ddim ond symbol o Imperialaeth y Csar a'r hen griw, ond y drwg am dani, rhydd Sofied 'Orchymynion cymdeithasol—social commands—a dyna ddiwedd ar Unigoliaeth.

Y mae Economeg fodern, comiwnistiaeth a ffasgiaeth, nationalism a racialism yn llawn o'r gwanc am waed ac wedi'u meithrin

ar atgasedd. Fe welwn felly ing yr ysbryd rhydd. Y mae dyn ar y groes ac yn marw i adgyfodi i fywyd newydd. Y mae dau lwybr yn ymgynnig i ni—Cyhoeddi urddas a gwerth rhyddid pob dyn neu ddiddynoli dyn gan osod cenedl yn uchaf a dyn yn ddim ond un o'r crowd.

Bobol bach, tybed nad oes eisiau protestio heddiw gymaint ag erioed? A ydych yn fodlon ar fywyd fel y mae yn unrhyw gylch heddiw?

Tybed nad oes gennym ryw neges at fyd mewn gwewyr, a rhyw gymorth i'w roi adeg geni dyn newydd?

Y mae yn werth dweyd y gwir plaen. Nid oes eisiau neges fach neis ar y byd. Nid oes ein hangen ninnau fel un o'r enwadau a'n golwg ar enwad ac nid ar ddynoliaeth, ar ddiwinyddiaeth ac nid ar Gristionogaeth. Fel y dwedai rhywun—Dyna uw Undodiaeth—*direction*, ac nid *position*, a dyna sydd yn ein damnio—gorffwys ar ein rhwyfau. Y mae'r menter wedi mynd. Y mae y neges wedi diflannu a'r tân wedi diffodd. Y mae eisiau i ysbryd newydd ddihuno ynom, a ninnau yn gofyn am i Dduw anadlu ar yr esgyrn sychion hyn. Y mae y moderniaid wedi mynd a'n tân. *They have stolen our fire.* Nid yw'r cwestiynnau a barodd ymrannu slawer dydd ond cwestiynnau academig. Y mae pawb yn esbonio'r Beibl fel ninnau. Ar fyr ni bydd y credoau ond emynau i'w canu er dweyd wrth oes na ŵyr am y ffordd a droediwyd.

Y mae'n amheus gennyf a oes dim ond *pride* enwad yn cadw nifer o'r enwadau rhag ail-ymuno a'r eglwys.

Pe gofynnwn pam na ddifodid ni fel enwad credaf na fedrech roi ateb boddhaol dros beidio. Ofer yw ceisio byw ar gynhennau a chwerylon oes o'r blaen. Nid yw ddim mwy na cheisio cadw capel split ar ei draed. Y mae yn bryd i ni holi ein hunain: *Beth yw'n neges ni gogyfer a ŷd mewn ing?*

Ys dywedai rhywun pwy ddydd :—

> "*A fresh nervous protest against the supineness of Conformity and the unworthiness of half measures in religious convictions . . .*"

Y mae eisiau protestio eto yn erbyn rhyfel ymhob cylch. Y mae'n bryd i ni fel enwad—fel blaenorwyr yn eglwys Dduw ofyn am *sanctions* byd yr ysbryd ar y felldith yma. Pan sefydlwyd cymdeithas heddwch dros gan mlynedd yn ôl yr oem ar y blaen, tybed y llaciwn ein gafael heddiw? Ddau can mlynedd yn ôl yn Sir Aberteifi apeliodd Daniel Rowland ac eraill at y teimlad—at y mass feeling, ond safodd dyrnaid bach yn ddigryn o blaid yr unigolyn a goleu rheswm a chydwybod. Y mae y Mass yn mynnu arglwyddiaethu yn Ewrop heddiw. Y mae dyn dan draed. Y mae yr unigolyn mewn llyffethair. Y mae dyn wedi ei droi ei hun yn beiriant, ac fel peiriant nid ym ond 'cogs in the wheel'. Nid oes enaid ynom, ac y mae neges gan yr Undodwr i brotestio

yn erbyn diddynoli dyn—yn erbyn ei wneud yn un o'r crowd gan ddal mai mater personol rhwng dyn a Duw yw ei grefydd. Bu yr Undodwr dro byd yn ymladd yn erbyn rhyw ddictator neu gilydd. Darllenwch hanes a chewch yr Undodwr yn protestio ymhob oes a gwlad. Nid oes eisiau unben na dictator arnom. Ys dywedai John Morley unwaith, a sôn ar led fod Gladstone wedi rhoi i fyny : " *We are not here to choose a leader : we have no vacancy.*" Felly ninnau. Nid oes eisiau arweinydd newydd arnom. Nid oes le ym myd meddwl ac enaid Undodwr i Fwsolini na Hitler na Stalin—We have no vacancy. Ein harweinydd ni yw Crist, a neges yr Undodwr yw cael gan y byd i edrych ar ddyn fel plentyn Duw, a rhyw werthoedd tragwyddol yn ei enaid, ac ni phaid a phrotestio hyd nes iddo ei gael i'w lawn dw YNGHRIST. Y mae'r dyfodol yn dywyll. Nid wyf innau broffwyd ond, onid oes gennym neges bendant a dwyfol—onid oes gennym foddion i ddadrys problemau cymhleth cymdeithas—oni fedrwn ddwyn byd sy'n cefnu ar DDUW yn ôl ato ef—oni fedrwn roi ynghalon gwerin wirioneddau syml yr Iesu, ni byddwn byw, a mwy na hynny, *ni theilyngwn fyw* o herwydd inni brofi yn anffyddlon i ysbryd rhyddid a gwirionedd a oedd yn yr hen deidiau ac yng Nghrist ei hunan.

Y mae fy syniad i o ddyn wedi'i bortreadu gan L. W. Rogers :—

" Man is a God in the making. Latent within him are all the attributes of Divinity.

There is no virtue he cannot evolve. There is no degradation from which he cannot arise. There are no bonds he cannot break.

For every human being has within him the spark divine that lights the world and makes him one with the supreme Wisdom, Love and Power which shapes the destiny of the Human race."

Dyna awgrym Undodwr—ein bod yn blant Duw, a gallwn ninnau ddweyd gydag Arnold,—

" Children of Men The unseen power whose eye
For ever doth accompany mankind,
Hath looked on no religion scornfully—
That men did ever find.

Which has not taught weak wills how much they can ?
Which has not fall'n on the dry heart like rain ?
Which has not cried to sunk selfweary man—
' THOU MUST BE BORN AGAIN '."

Ein gwaith ninnau felly yw helpu i ail-eni dyn—deffroi rhyw bosibiliadau dwyfol ynddo—cael dyn yn ddyn a phlentyn Duw. Felly codwn at ein gwaith yn ysbryd y teidiau,—

" Ring out the darkness of the land,
Ring in the Christ that is to be."

O.

Y Barbariad Bach.

Gan Sarnicol.

I.

Aeth cyfnodau heibio,—meithion fel cyfnodau'r cynfyd. Ac os gwir mai datblygiad o greadur îs yw dyn, 'roedd y barbariad bychan a droediai ei ffordd dros y gors sigledig, drwy ryd y gornant fâs, a hyd lethr y bryn eithinog yn y bore cynnar hwn yn ddarlun teg o'r hyn a fu'r holl ddynoliaeth unwaith yn ei hanes.

Yr oedd yn llefain am ei fam, a'r dwfr hallt yn syrthio'n ddafnau crynion ar y toc o fara 'menyn yn ei law.

Dwy reddf fawr oedd yn ei feddiannu, ofn a newyn. Am hyn y criai am ei fam, ac y cariai'r bara 'menyn yn ei law. 'Roedd wedi cael ei ddanfon allan i'r byd mawr anhysbys am y tro cyntaf i ymofyn am yr hyn sydd anhepgor i bob creadur byw, ac i ddyn, uwchlaw pob creadur arall—am brofiad. Ac y mae'n rhaid i ddyn dywallt aml i ddeigryn chwerw yn fynych cyn ei gael.

Cartrefai mewn man ddiarffordd draw yng Ngheredigion, man mwy anhygyrch bron na llawer o fynyddoedd cyfrin yr Andes neu Tibet. A fu unrhyw ddarganfyddwr erioed yn chwilio dirgelion Cwm March a'r Allt Ddu? A osodwyd eu henwau erioed ar fap y byd gwareiddiedig?

'Roedd afon ddu enfawr yn rhedeg drwy'r fawnog yn ymyl ei gartref, a phyllau dyfnion rhyfeddol ynddi; sonnid fod pysgod enfawr a elwir brithyllod wedi eu gweled yno gynt. Aml y rhybuddiwyd y barbariad bach gan ei fam i beidio a mynd yn rhy agos i'r pyllau hyn, rhag iddo syrthio i'r gwaelod a methu codi mwy.

Bellter mawr oddiyno 'roedd afon Cwm March, yn tarddu fry yn encilion y mynydd enfawr a gyfodai yn y pellter draw o flaen y tŷ. 'Roedd yr afon yn chwyrn a gloyw, a physgod yn siglo eu cynffonnau yn ei phyllau a mintys gwyllt yn tyfu rhwng y cerrig gwynion ar ei glan. Rhaid oedd rhydio'r afon hon y bore hwnnw; a thrwy help dwylaw ei frawd a'i chwaer gwnaeth hynny heb wlychu troed.

Nid rhyfeddach ymdaith y Celt drwy fforestydd Ewrop na siwrnai faith y barbariad bychan drwy odre tywyll yr Allt Ddu—fforest anferth o eithin a grug a derw, lle trigai cwnhingod, llwynogod a nadredd y dydd, a bwystfilod rheibus a dienw ac ysbrydion dychrynllyd a di-lun yn ystod oriau ofnadwy'r nos.

Draw yn y pellter difesur dangosid iddo bentref Capel Cynon, lle y dwedai traddodiad y teulu fod Siop Dafy'r Gwehydd , ac ar adegau yn hanes y byd, gynhulliad anferth o bobl a phob gwyrthiau a rhyfeddodau, a elwid yn Ffair Gynon. A churai calon y barbariad bach rhwng ofn a chywreinrwydd.

Ar y chwith, filltiroedd lawer ymlaen, daethpwyd at adeilad llwyd aruthr, a math o simdde fawr gam ar ei ben, ac yn honno dwll anferth yn yr hwn y crogasid cloch, ffynhonhell sŵn rhyfeddbell a glywsai'r barbariad ar ei glustog gwellt weithiau ar fore tawel o haf. Mynnai'r gŵr bychan aros i edrych ar y ffenestri plwm mawrion, yr eiddew gwyrdd a oedd yn dringo'r muriau tal, y meini rhyfedd a amgylchai'r tŷ, a llythrennau'n gerfiedig arnynt—rai ohonynt yr un lliw a'r sofren honno a welsai unwaith yn llaw ei fam pan ddaeth hi adref o Ffair Santesau. Ond tynnwyd ef yn ei flaen gan law ei chwaer. Ymhen amser hir aeth i ryw le enfawr, ac ynddo lu o dai anferth, gwyngalch, a llechi ar eu pennau yn lle tô gwellt ; ac yr oedd un o'r tai'n anferthach na'r lleill. Hwn, meddid, oedd y tŷ a fuasai yn dafarn,—y Grange Inn.

Aed i mewn i Siop Dafy'r Gwehydd, a dangoswyd i'r barbariad amcan y ddime a gawsai gan ei fam ; cafodd yn ei lle ddyrnaid o felysion o law fawr galed hen ŵr y Gwehydd,—a hwn oedd y rhyfeddod pennaf eto.

Ymlaen y trafaelid o hyd ; aed heibio coeden fawr yr Eilbwt, a phentref Ffoslas, ac yn y pellter cyfodai Banc Clawddmelyn. 'Roedd coesau'r barbariad yn blino, ac yr oedd arno eisiau bwyd.

Cododd ei frawd ef ar ei gefn, a chafodd siâr o docyn ei chwaer. Ac wedi hir deithio 'mlaen, daethpwyd o'r diwedd at dŷ newydd aruthr, a muriau mawrion o'i gylch, a miloedd ar filoedd (fel y tybiai) o farbariaid eraill o bob oed a lliw a llun yn rhuthro oddiamgylch—rhai'n gafaelyd yng nghynffonnau'r lleill, eraill yn ymdrabaeddu yn y llaid ; rhai eto'n gafael yn nwylaw ei gilydd, ac yn canu a dawnsio mewn cylch ; merched oedd y rhain gan mwyaf, a bratiau gwynion glân amdanynt, a gwalltiau hirion prydferth, a lleisiau ariannaidd hyfryd ganddynt.

Ar risiau gleision yr adeilad 'roedd pedwar neu bump o wrywod mawr, ond difarf, a debygai fod o leiaf yn ddeuddeng mlwydd oed, yn chware pinnau ; ac edrychent yn gilwgus ar y barbariad bach ; dechreuodd wylo, a siglodd ei chwaer ef, gan ddweud wrtho am beidio a bod mor wirion.

Yn fuan daeth gŵr enfawr tal i'r golwg, mewn dillad brethyn, yn llodrau a chvfan—oblegid ni welsai'r barbariad bach ond llodrau "rib" o'r blaen ; safodd gŵr y dillad brethyn ar ben y drws, tynnodd *whistle* ddisglair o logell ei lodrau, a chwythodd ynddi nes oedd ei gernau'n chwyddo fel dwy awyren. Sylwodd y barbariad fod y dyn yn cadw un fraich yn llogell ei gôt yn barhaus ; a sisialodd ei chwaer wrtho mai dim ond un fraich gyfan

a feddai ; hanner braich oedd y llall. A chyda trwst digymar welc'r holl farbariaid yn cyd-ruthro i'r adeilad ; a chan y twrw dihafal fe'i sysrdanwyd. 'Roedd y cwbl, o ryfeddodau cyntaf y cyfnod hyd at y gwyrthiau olaf hyn, wedi ei ben ddyrysu ; ac ni welodd ac ni chlybu fawr mwy , 'roedd bywyd a breuddwyd wedi myned yn gymhleth yn ei enaid

Yn unig, o'r tryblith chwildroadol, am flynyddoedd meirhion wedi hyn, cyfodai darlun o lygaid disglair, duon, a gruddiau cochion, rhosynnog geneth fechan ; merch y gŵr un fraich, yng ngweledigaethau atgof. Hon a fu gyntaf yn dangos iddo lyth-rennau'r wyddor ar len fawr a grogai o wal yr adeilad.

Ac yn y modd hwn y cafodd y barbariad bach ei yrru gyntaf dros riniog drws ei gartref i chwilio profiad.

II.

Eto aeth cyfnodau hirfaith heibio ; torrodd eiliw gwawr ar feddwl tywyll y barbariad ; diolch i'w gyd-farbariaid, y gŵr unfraich, ac anawsterau eraill. Wrth ddringo bryn anawsterau yr eir i gyfarfod pelydr y seren fore : sic itur ad astra.

Ofer ceisio disgrifio'r daith ; bu'n hir a throeog, a gofid a phleser yn ei wthio a'i ddenu bob yn ail. Cafodd lawer cernod dost ; ac ambell wobr euraid. Troes yn aml oddiar lwybr dyletswydd a datblygiad. Bu'n chwilio brithyllod dan geulannau Cerdin pan ddylasai fod yn astudio daearyddiaeth Canolbarth Asia ; ond rhaid addef iddo ddysgu mwy ar lan yr afon nag a ddysgasai o lyfr. Mae tywarchen dan droed yn fwy sylweddol na chyfandir na welir ; a sildyn mewn llaw yn fwy na lefiathan mewn llyfr. Ffonodiwyd ef yn dost am fynnu yfed gwybodaeth o'r afon ; ond mil melysach oedd y ddiod o'r herwydd ; a daeth glannau'r afon yn Baradwys waharddedig iddo. Breuddwydiai am y fan yn y nos, a llithrai yno'n lledradaidd yn hwyr y dydd.

Dysgodd y barbariad drin bwa a saeth a chwm-bwlet ; ac aml alanas ddychmygol a luniodd â'r arfau hyn. Ymladd oedd elfen ei fywyd am ysbaid. Pa bleser fai byw mewn byd heb ynddo wrthwynebwyr i'w lladd, a gelynion i'w difetha ? Onid concro oedd dedwyddwch pennaf bodolaeth ?

Darlun y Brython gwyllt yn y coed, a chroen danas am ei lwynau, a'i freichiau cyhyrog, yn tynnu llinyn y bwa i ladd yr ewig gyflym ; ar hwn yr hoffai syllu a myfyrio. 'Roedd ewigod wedi hen ddiflannu o ardal glan Cerdin ; anaml y deuai cwnhingen o hyd ergyd ei saeth ; am hynny gwae'r cŵn a'r cathod teuluaidd ! Yn wir, un tro, gollyngodd saeth ar ei frawd ei hun, gan ei glwyfo'n dost yn ei gern ; a bu dost ei gern yntau pan glybu ei dad yr helynt.

Bu llawer ymladdfa rhyngddo a'i gyd-farbariaid ; fynychaf heb arf ond ei ddwrn moel ; ac nid bob amser y gorfu. Cofus am ei oes fu ganddo un fuddugoliaeth fawr, yr hon a enillodd yn rhinwedd hirwallt anniben ei wrthwynebydd, ac yntau ei hun newydd ei ben-gneifio gan ei fam. Ond teg pob sgil mewn serch a rhyfel, fel y dywaid llwyth o farbariaid adnabyddus.

Ehangodd ei brofiad yn raddol, raddol. Heblaw llawer o bethau difudd eraill, ar flaen y pastwn dysgwyd ef i barablu'n dra anystwyth mewn iaith farbareiddiach na'r eiddo ei hun ; yn wir cymerid yn ganiataol na feddai'r un iaith o gwbl hyd oni ddaeth i gyffyrddiad a'r gŵr unfraich ; yr hwn, yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi colli aelod drwy ddamwain ar y môr, a ystyrrid yn dra chymwys i arwain barbariaid bychain yn y ffordd y dylent ei rhodio.

Yn wir, 'roedd yn wers fyw a gweledig iddynt i'w hatal rhag gwneuthur nam i'w haelodau. Er codi o'r gŵr bach ris yn uwch yng ngraddfa bod, dysgwyd ef i gywilyddio o herwydd tafodiaith ac arferion ei rieni ; dangoswyd iddo mai pwysicach iddo oedd nodau neilltuol ar lechi gleision na'r coed, a'r meysydd a'i anifeiliaid o'i gylch ; ac adroddwyd iddo hanesion na ddeallai mewn iaith na fedrai. Yn wir, rhoed mil a mwy o anawsterau ar ei ffordd i ddysgu, ac ychwanegu at ei brofiad. Ac yn rhinwedd yr anawsterau hyn datblygodd yn weddol gyflym.

Proffwydodd rhywun fod oesau i ddod pan roddir help i'r barbariaid i fyned yn eu blaen. Gwae'r ddynoliaeth y pryd hwnnw ; cenhedlaeth laes ei moesau, lac ei gewynau, ac egwan ei chyhyrau a fegir drwy'r driniaeth feddal honno.

Un dydd daeth helwyr bwystfilod rheibus a elwir llwynogod heibio i'r adeilad mawr ; ac er gwaethaf y gŵr a'r pastwn, dihangodd y rhan fwyaf o'r barbariaid a oedd dan ei ofal ar ôl y cŵn a'r ceffylau, gan adael rhai o'r llancesau bychain, a dau neu dri o gloffion a gweiniaid ar eu hôl!! Yn swn y "Tally Ho" i ffwrdd yr aethant bob copa walltog, a gwaed eu cyndeidiau cryfion yn gweiddi am ysglyfaeth yn eu gwythiennau. Dros yr eithin, drwy'r perthi, ymaith yr aent ar garlam wyllt. Rhwygodd amryw eu gwisgoedd yn y drain a'r mieri, syrthiodd eraill mewn ffosydd, gan glwyfo eu hunain yn aethus ; bu eraill ar fin boddi yng nghenllif Cerdin. Ond ba waeth ? Hwn oedd bywyd mewn gwirionedd ; nid breuddwydio a hepian o dan do, ond rhedeg yn wyllt a nwyfus drwy feysydd anian, yn llawn pleser, a heb ofni poen. Nid oedd hyd yn oed pangfeydd newyn yn ddigon i'w hatal ar eu hynt. Onid greddf am ysglyfaeth a'u gyrrau yn eu blaen, er nad oedd yr ysglyfaeth honno namyn cadno anfwytadwy !

Ond cynt ceffyl na dyn ; dihangodd yr helwyr arnynt dros y trumau anferth draw, a buan yr aeth sŵn yr helgorn o gyrraedd eu clyw. Eisteddasant yn lluddedig a newynog ar ben bryn a

fu unwaith yn gaer amddiffynnol, neu ddinas. Tyfasai coedwig lydan ar fynwes helaeth y bryn, ond yr oedd olion câd i'w gweled ar bob llaw. Rhedai'r afon fawr bysgod-lawn wrth droed y bryn, a thrydarai adar dieithr yn y coed. Yr oedd arogl y dail a'r prennau'n hyfryd, ac er gwaethaf newyn a syched, yr oedd calon y barbariaid bach yn llamu gan lawenydd yn y dieithrwch rhyfedd.

Yn y pellter draw dangoswyd iddo fynyddoedd duon Sir Gaer, ac yn y dehau obry cyfodai bryniau Penfro bennau dieithr yn y cymylau. Yr oedd y byd yn eang a rhyfeddol—yn llawn posibiliadau diderfyn.

Ond daeth chwant bwyd yn gryfach na syndod ar y barbariad bach. Ni fyn rhamant a newyn byth gyd-letya.

O un i un ymadawodd ei gyfeillion, a chyfeiriodd yntau ei gamre tua thref. Anghofiodd yr helfa, y ddinas, a'r rhyfeddodau. Yr oedd ei goesau'n flin, ei ben yn boenus, a'i gylla'n wag. Aeth y byd oddimewn mewn anghytgord â'r byd oddiallan, ac yr oedd y wlad yn ddieithr. Gwyddai lawer am ddaearyddiaeth Deheudir America, ond yn ei fyw ni fedrai wybod ei ffordd i Ben Lôn Allt-y-maen. Aeth drwy fuarth fferm, ac yr oedd dau blentyn yn bwyta brechdanau ar drothwy'r drws ; a bu'r barbariaid bychan ymron a llewygu. Yr oedd criafol y moch ar y drain hyd ochr y ffordd, a da fu ganddo bigo ychydig ohonynt i geisio torri ei chwant. Bu'n yfed dwfr mewn pistyll ar fin y llwybr ; ond yn waeth-waeth yr âi'r llesgedd a'r dolur pen.

Bu plant cellweirus yn galw enwau câs arno, ac yn taflu cerrig ar ei ôl ; a thorrodd i wylo'n chwerw. Yr oedd ei ddewrder anturus wedi llwyr ymado. Troes i gae lle tyfai maip ; ac er yr holl wersi a gawsai mewn gonestrwydd, gorfu newyn ar y cwbl. Bu'r erfinen honno'n gwasgu'n drwm ar ei frest am flynyddoedd lawer, yr hyn a ddengys eto fod gwawr gwareiddiad eisoes ar fin torri ar enaid y barbariad bach. Bu'n crwydro a'i ben tua'r llawr am oriau hirfaith. O'r diwedd daeth i ben bryn uchel, ac yn y pellter, o hir edrych, adnabu Fanc yr Hafod, a'r twrr o goed, a'r amaethdy gwyn yn eu canol. Cymerodd lwybr tarw at y fan ; ac unwaith y cyrhaeddodd yno, nid hir y bu gobaith a hyder cyn ei gymryd i aelwyd ei fam, a thywyllwch y nos eisoes wedi disgyn ar y wlad.

A bu helynt y cŵn cadno yn wers iddo am lawer diwrnod wedyn. Dysgodd mai gwaith peryglus yw ymdeithio'n ddi-feddwl i diriogaeth yr anhysbys, a bod ei well a'i gallach wedi marw ganwaith yn yr anialwch. Uwchlaw dim, dysgodd nad oes fan yn y byd fel cartref, a'i bod yn rhaid trafaelu'r diffeithwch yn aml cyn deall yr hen air : " 'Does unman yn debyg i gartref ! "

Pwyllgor Hydref 1935.

CYNHALIWYD yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr fore Iau Hydref 31. Danfonodd y Llywydd—Mr. Thomas, Spring Gardens, Llandysul, neges yn cwyno'i anallu i fod yn bresennol ac yn ei absenoldeb etholwyd y Parch. E. R. Dennis i'r gadair am y tro.

Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol.

Cafwyd adroddiad ar nifer a gwaith y myfyrwyr. Dipyn yn ddigalon yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd yr hwn a ddywedai pa eglwysi oedd wedi, a pha rai oedd heb yrru eu casgliadau i fewn. Pasiwyd fod ei sylwadau i ymddangos yn yr YMOFYNNYDD. Gan nad oedd y Parch. T. O. Williams, M.A. wedi cyrhaedd ni chafwyd adroddiad ar "Ail Lyfr Gwersi'r Ysgol Sul". Cafwyd ar ddeall yn ddiweddarach serch hynny fod y llyfr i ymddangos ar fyrder.

Safon mynediad ein Myfyrwyr i Goleg Caerfyrddin.—Pasiwyd fod y mater yma i'w drin yn y Pwyllgor Blynyddol nesaf ac yn y cyfamser fod Pwyllgor yn cael ei wneud i fyny o bump cynrychiolydd yr un o'r ddwy Gymdeithas ynghyd â'r Prifathro Davies a Phwyllgor y Myfyrwyr i ystyried y mater er ceisio dod o hyd i safon ellir ei chymeradwyo i'r cymdeithasau.

Trefnwyd ein bod yn gofyn i gynulleidfa Ciliau Aeron i dderbyn Cyfarfodydd y Pasc.

Diolchwyd yn gynnes i'r cyfeillion yn yr Hen Dŷ Cwrdd am dderbyn y Cyfarfodydd mor wresog a llongyfarchwyd hwy ar eu gwaith yn glanhau ac addurno'r capel.—E. O. JENKINS.

CASGLIADAU'R EGLWYSI AT Y GYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

CEISIWYD gennyf yng Ngŵyfarfodydd Chwarterol Aberdâr i yrru i'r YMOFYNNYDD adroddiad byr o danysgrifiadau'r eglwysi eleni at y Gymdeithas.

Fel y cofir gosodwyd *quota* i bob Eglwys am 1935.

Cyfrannodd chwech eglwys, sef Aberystwyth, Capelybryn, Ciliau, Y Graig (Llandysul), Parcyfelfed a Rhydygwin ychydig dros eu *quotas*.

Talodd Alltyblaca, Brondeifi, Bwlchyfadfa, Caeronnen, Capelycwm, Llwynrhydowen a Phanteg eu *quotas* yn llawn.

Talodd Cefncoed, Aberdâr a Phantydefaid lai na'r *quotas*—£1 : 7 : 5 yn llai.

Y mae Capelygroes, Cribyn a Threbanos heb danysgrifio dim, lle gobeithid am £8 : 15 : 0. Y mae felly £10 : 2 : 5 yn fyr yn nhaliadau'r chwech eglwys olaf ac nid oes eisiau dychymyg cryf iawn i weled na ellir talu dyledion a threuliau'r Gymdeithas heb i bob eglwys wneud ei rhan. Nid oes digon o eglwysi yn aelodau o'r Gymdeithas i allu cyfrif cymaint ag un o honynt yn eglwys spâr. Nis gallaf felly ond erfyn unwaith eto am gydweithrediad llawn a chefnogaeth pob eglwys. Rhyfedd mor angysurus ydyw teimladau Trysorydd anghennog.

Carwn hefyd ofyn am barhad cefnogaeth Urdd y Benywod. Hyd yn hyn nid oes ond tair cangen, sef rhai Capelybryn, Cribyn ac Aberystwyth wedi cyfrannu am 1935. Ni allaf lai na mynegi fy niolch gwresocaf unwaith eto i Ganghennau'r Urdd yng Ngheredigion. Heb eu cynhorthwy sylweddol hwy yn y blynyddoedd diwethaf hyn buasai'n amhosibl cario gwaith y Gymdeithas ymlaen.

Ai nid oes posibilrwydd i ddiddori Canghennau'r Urdd ym Morgannwg yn y Gymdeithas ac i sicrhau eu cymorth? Ni chawsant hyd yn hyn eu henwau yn Rhestr y Tanysgrifwyr.

Wele isod daflen a ddengys y diffygion yng nghyfraniadau'r eglwysi :—

Eglwysi—	*Quotas—* £	s.	c.	*Taliadau—* £	s.	c.
Cefncoed	1	5	0	1	0	0
Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr	3	12	6	3	5	0
Pantydefaid	4	0	0	3	5	1
Capelygroes	2	5	0	0	0	0
Cribyn	2	10	0	0	0	0
Y Graig, Trebanos	4	0	0	0	0	0

Bydd yn dda odiaeth gennyf os gwel y cynulleidfaoedd uchod eu ffordd i gwblhau yn ddioed eu taliadau yn ôl penderfyniad Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas.

Fronheulog, Penparke, Aberystwyth. W. S. Jones.

Priodas.

Dydd Mawrth, Hydref 8, yng Nghapelygroes, unwyd mewn priodas Mr. EVAN WILLIAMS, mab Mr. David Williams, a'r diweddar Mrs. Williams, gynt o Frynllofawr, Llanybyther, a Miss ELIZABETH THOMAS, merch y diweddar Mr. David Thomas, Talgrwnmawr, a Mrs. Thomas, yn awr o Unity Cottage, Capelygroes, gan y Parchn. D. Evans, Cwmiago, ac E. O. Jenkins, Llwyn, ym mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. E. D. Rees, Llanbedr. Pob hawddfyd a ddilyno'r pâr ifanc.

Marwgofion.

Ar Fedi 7 bu farw WILLIAM EVAN BEVAN, Paris House, Trebanos, yn 73 mlwydd oed. Dyn tawel ydoedd, o ysbryd didwyll, yn caru mynychu ei Gapel, yn hoff o'r Ysgol Gân, ac anaml y byddai ei le'n wâg yn y côr. Cafodd hir gystudd, ond ni lethodd hynny ei ysbryd siriol. Fe'i claddwyd y dydd Mercher canlynol wrth Gellionnen, gan Parchn. D. John a J. D. Jones yn gwasanaethu. Gedy ar ei ôl i alaru un ferch a'i phriod, a llawer o berthynasau.

Blin gennym gofnodi marwolaeth Mrs. E. JONES, 10, Overton Street, Dowlais. Bu farw dydd Mercher, Hydref 9fed ar ôl cystudd byr. Yr oedd hi yn hynod am ei charedigrwydd a'i haelioni ac fe fydd yn golled mawr ar ei hôl. Yr oedd hi yn un o ffyddloniaid yr achos a fu yn Nowlais ac fe welir ei heisiau yng nghyfarfodydd y S.E.W. Cyflwynwn i'w phriod ac i'w merch ein cydymdeimlad llwyraf yn eu hiraeth a'u colled. Claddwyd ym mynwent y Pant dydd Sadwrn, Hydref 12, a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Adams, B.A., B.D. (A) ac E. R. Dennis.

Hydref 20 bu farw SARAH JONES, Porth, Drefach, Llanwenog yn 62 oed. Yn ddiweddar cartrefai gyda'i nith yn Henllys, Nantcwnlle ac yno ar ôl cystudd hir y bu farw. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Alltyplaca a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Gweinidog—y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo yn y tŷ gan Reithor Trefilan. Yr oedd yr ymadawedig yn nith i'r diweddar Barch. John Davies, Alltyplaca.

HYDREF 17, ym Maesygraig, Drefnewydd, Porthcawl, SARAH PARRY, yn 80 oed. Gweddw ydoedd hi i'r diweddar Barch. William Parry, a fu unwaith yn weinidog ym Mhenybont, yntau yn hannu o ardal Alltyplaca. Claddwyd ym mynwent y plwyf yn Drefnewydd, Llun, Hydref 21ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. J. Potter, Notais a T. L. Jones.

LLUN, Hydref 21, yn Maescynrig, Merthyr Tydfil, GOMER LL. THOMAS, Y.H. Er nad oedd Mr. Gomer Thomas yn adnabyddus i nifer luosog o aelodau yr eglwysi Cymraeg, yr oedd ei wasanaeth ffyddlon i'r enwad yn Sir Forgannwg yn gyfryw ag y dylid ei gofnodi mewn unrhyw gylchgrawn Undodaidd. Treuliodd Mr. Thomas ei fywyd ym Merthyr. Hannai o hen deulu enwog. Mae un o'i gyn-famau yn gorwedd ym mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed—Lucy Thomas, a hithau y cyntaf i anfon glo o Gymru i'w allforio. Cludid y glo ar gefnau merlod a mulod. Yn y gwaith glo yr oedd Mr. Gomer Thomas hefyd ers blynyddoedd, a pherchid ef yn fawr dros ddeheudir Cymru fel dyn gonest a chywir, a cherid ef gan ei weithwyr fel meistr teg a charedig. Bu yn flaenllaw yn yr achos Undodaidd ym Morgannwg drwy ei fywyd. Bu yn Llywydd ac yn Drysorydd y Gymdeithas, a bu yn ffyddlon ac yn weithgar ym mhwyllgorau'r Gymdeithas bron hyd y diwedd. Gedy weddw a phedwar mab i alaru o'i golli. Llosgwyd ei weddillion yng Nghorfflosgfa Pontypridd, dydd Iau, Hydref 24. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. T. L. Jones, a chynhaliwyd gwasanaeth coffa yng Nghapel Merthyr y bore Sul canlynol. Yr un gweinidog yn gwasanaethu.

Urdd y Benywod.

YR oedd cynrychiolaeth dda o'r gwahanol ganghennau mewn cyfarfod o Bwyllgor Gweithiol yr Urdd yng Nghapel y Graig, Llandysul, brynhawn Sadwrn, Hydref 28.

Arweiniwyd mewn defosiwn gan Miss S. A. Jones, a chadeiriwyd gan Mrs. J. E. Jones, Llywydd y Dosbarth, a llywydd cangen Aberystwyth. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. i anerch y cyfarfod blynyddol yng Nghribyn, Tachwedd 23ain.

Derbyniwyd yn ddiolchgar wahoddiad o Gapelygroes i gynnal y Pwyllgor Gweithiol nesaf yno ym mis Mai.

Penderfynwyd fod i'r gwahanol ganghennau drefnu eu gwaith eu hunain dros dymor y gaeaf.

Cafwyd trafodaeth ddiddorol ar gwestiwn casglu arian tuag at Drysorfa'r Myfyrwyr, a theimlir yn ffyddiog y bydd i ymdrechion yr Urdd lwyddo i ennill y gefnogaeth ddyladwy i'r achos teilwng hwn.

Mae Llawlyfr newydd o emynau a gweddiau at wasanaeth yr Urdd newydd ei gyhoeddi tan olygiaeth y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Dylai y llyfr hwn gyflenwi yr angen deimlwyd yn hir.

Ar ôl y cyfarfod cafwyd te yn y festri, a threuliwyd awr ddedwydd a hwylus gan yr aelodau a'r gweinidogion oedd yno.—K.J.

Nodion yr Eglwysi.

ABERYSTWYTH.—Y Sul cyntaf ym mis Hydref y cawsom ni yma ein cyrddau diolchgarwch am y cynhaeaf eleni. Y gweinidog oedd y pregethwr a chafwyd ganddo bregethau nerthol a tharawiadol iawn. Cafwyd cynulliadau da hefyd, yn enwedig yr hwyr pan oedd y capel bach bron mor llawn ag y gallasai fod. Addurnwyd ef yn ddestlus iawn ar gyfer yr amgylchiad gan aelodau Urdd y Benywod, ac y mae clod nid bychan yn deilwng iddynt am eu llafur o gariad.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH.—Cynhaliwyd Cyrddau Diolchgarwch am y cynhaeaf yng Nghapel-y-Bryn, Alltyplaca a Chapel-y-Cwm, Hydref 4, 18 a 23. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Oswald Williams, E. O. Jenkins, a J. Marles Thomas.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr eglwysi hyn, a phregethwyd yn y ddau le gan y Parch. E. O. Jenkins. Cafwyd cynulliadau lluosog a gwasanaethau dymunol iawn. Sul, Hydref 13 derbyniwyd dau aelod newydd yng Nghiliau.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd y Cwrdd Diolch nos Lun, yr 21ain o Hydref. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. G. Lewis, gweinidog y Bedyddwyr yn Nhrefdraeth, Penfro. Cymrodd y Parch. E. O. Jenkins hefyd ran yn y gwasanaeth. Daeth cynhulliad anarferol luosog ynghyd. ac aeth pawb o'r gwasanaeth wedi'u llwyr fodloni. Amlwg oedd, hefyd, bod ym mynwes y pregethwr le cynnes i Gapelygroes.

CRIBYN.—Nos Wener, y 25ain, cynhaliwyd Cwrdd Diolch yn y capel uchod, pryd y gwasanaethwyd i gynulleidfa luosog gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Aberystwyth. Da oedd gan bawb weld Mr. Thomas yn talu ymweliad â'r lle, ac adnewyddu'r hen gyfeillgarwch. Bydd Mr. Thomas yn y ddeule eto un o'r ddau Sul olaf yn y flwyddyn.

LLUNDAIN.—Cynhaliwyd gwasanaeth Cymraeg yn Stamford Street, Llundain ar brynhawn Sul, Medi 22ain. Pregethwyd gan y Parch. T. L. Jones, Cefn Coed. Yr oedd dros hanner cant o Gymry yn bresennol. Treuliwyd awr ddedwydd ar ôl y gwasanaeth yn ysgoldy Stamford Street, lle yr oedd cyfeillion caredig y capel wedi darparu te. Mae'r awdurdodau yn Llundain wedi mynegu eu diddordeb yn y gwasanaethau hyn, a disgwylir awgrymiadau oddiwrthynt yn fuan ynglŷn â chynllun i gynnal cyfres o wasanaethau. Gobeithir y bydd yn bosibl i gael rhyw nifer o wasanaethau ar hwyr Sul, a gobeithir hefyd o lwyddo o honom i gael cynllun ar waith y ceir cydweithrediad calonnog gweinidogion Cymreig eraill.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Agorwyd *Sale of Work* ar Fedi 19 gan Mrs. Kirkhouse Morgan, Alltwen. Diolchwyd iddi gan Miss A. Morgan, Llywydd yr adran leol o'r *Women's League* a Mrs. J. D. Jones. Siaradwyd hefyd i'r un perwyl gan Mr. J. Hopkin a'r gweinidog. Cyflwynodd Gwyneth Morgan *bouquet* i Mrs. Morgan, a gwnaeth hynny a phennill bach tlws. Bu'r *Sale of Work* yn llwyddiant mawr, a diolchir i'r gwragedd am eu hymdrech ddiflino dros yr achos. Dywedir i bron bum cant o bobl eistedd i lawr i de, a throsglwyddodd y Trysorydd, Mrs. S. J. Edwards, y swm o £77 tuag at leihau dyled yr achos. Ysgrifenyddion y fenter oedd Mrs. A. T. Griffiths a Mrs. M. Davies.

CANMLWYDDIANT.—Can mlynedd yn ôl, ar Fedi 19, 1835, y ganwyd y Parch. John Evans, Gellionnen, ac yn y gwasanaethau ar Fedi 29 cyfeiriwyd at ei waith fel gweinidog yr Eglwys ac fel ysgolfeistr yn y cylch. Daeth Mr. Evans i'r Gellionnen yn 1862 fel cynorthwywr i'r Parch. John James. Yn 1863 derbyniodd alwad unfrydol i'r fugeiliaeth. Fe'i cofir yn bennaf fel sylfeinydd yr achos yn y Graig, Trebanos. Efe ac eraill a fu'n gyfrwng hefyd i gychwyn yr Ysgol Sul yn y lle. Fel ein gweinidogion ereill cadwai yntau ysgol. a daeth "Ysgol Ifans" yn enwog drwy'r gymdogaeth. Fel tystiolaeth o barch gosododd 164 o'i hen ysgolorion dabled coffa iddo rai blynyddoedd yn ôl ar fur Capel Gellionnen. Trwy ei ymdrechion ef yn bennaf nid yn unig yr adnewyddwyd hen Gapel Gellionnen ond fe'i prynwyd ynghyd â'r gladdfa helaeth sydd o'i amgylch. Bu farw Mr. Evans ar Fawrth 8, 1888.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

GOLDSMITH, SILVERSMITH, JEWELLER,
:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

wishes

Buy the **RINGS** at

31, Great Darkgate Street
ABERYSTWYTH
TELEPHONE No. 209.